

Gwerthuso Wikipedia



Olrhain tarddiad ac esblygiad
erthyglau a gwerthuso'u hansawdd
wicipediacymraeg.org

Erthygl | Sgwrs | Darllen | Golygu | Gweld yr hanes | Chwilio | Mynd | Chwilio

Hanes golygu 'Asid'

Dangos logiau'r dudalen hon

Chwilio drwy'r hanes

Cyfraniadau hyd at y flwyddyn: 2013 | Cyfraniadau hyd at fis: pob mis | Hidl tagiau: | Y rhai a ddilwyd yn unig | Rhestrer

Cymharu dau fersiwn: marciwch y cylchoedd ar y ddau fersiwn i'w cymharu, yna pwyswch ar 'return' neu'r botwm 'Cymharer y fersiynau dewisedig'.
Eglurhad: **(cyf)** = gwahaniaethau rhyngddo a'r fersiwn cyfredol, **(cynt)** = gwahaniaethau rhyngddo a'r fersiwn cynt, **(B)** = golygiad bychan

Cymharer y fersiynau dewisedig | Dangos/cuddio y diwygiadau dewisedig

- **(cyf | cynt)** 16:59, 11 Mawrth 2013 Legobot (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) **B** . . (9,887 beit) (-1,569) . . *(Bot: Migrating 98 interwiki links, now provided by Wikidata on d:q11158 (translate me))* (gwrthdroer 1 golygiad | dadwneud | diolch)
- **(cyf | cynt)** 15:34, 12 Chwefror 2013 Rhyswynne (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) . . (11,456 beit) (-5) . . *(Dadwneud y golygiad 1397949 gan 46.16.3.241 Golygiad amheus - all rhyw: wino?)* (dadwneud | diolch)
- **(cyf | cynt)** 15:31, 12 Chwefror 2013 46.16.3.241 (Sgwrs | blocio) . . (11,461 beit) (+5) . . *(→Darncaiaethau asidau)* (dadwneud)
- **(cyf | cynt)** 20:21, 8 Chwefror 2013 TjBot (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) **B** . . (11,456 beit) (+20) . . *(r2.7.2) (robot yn ychwanegu: yi.סימניר)* (dadwneud)
- **(cyf | cynt)** 12:17, 2 Chwefror 2013 BOT-Twm Crys (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) . . (11,436 beit) (+7) . . *(→Dolenau Allanol: addasu'r ddolen i Wiciadur, replaced: {{Wiciadur|{{PAGENAME}}}} → {{Wiciadur|{{PAGENAME}}}} using AWB)* (dadwneud)
- **(cyf | cynt)** 15:06, 1 Chwefror 2013 BOT-Twm Crys (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) . . (11,429 beit) (+35) . . *(ychwanegu dolen i Wiciadur using AWB)* (dadwneud)
- **(cyf | cynt)** 07:56, 28 Hydref 2012 Adam (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) **B** . . (11,394 beit) (-4) . . *(→Nodweddion asid: dol)* (dadwneud | diolch)
- **(cyf | cynt)** 02:08, 13 Medi 2012 Glanhawr (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) **B** . . (11,398 beit) (+3) . . *(→Asidau gwan)* (dadwneud | diolch)
- **(cyf | cynt)** 02:05, 13 Medi 2012 Glanhawr (Sgwrs | cyfraniadau | blocio) . . (11,395 beit) (-129) . . *(→Cryfder asidau)* (dadwneud | diolch)

Wikipedia yw'r gwyddoniadur mwyaf a grëwyd erioed. Mae'n bodoli mewn cannoedd o ieithoedd. Fodd bynnag, yn wahanol i wyddoniadur traddodiadol, mae Wikipedia yn defnyddio model golygu agored. Gall unrhyw un gyfrannu drwy ysgrifennu neu olygu erthyglau'n uniongyrchol, a thrwy hynny gall erthyglau fod o ansawdd amrywiol. Mae'n bwysig i ddarllenwyr fel chi fedru adnabod a yw erthygl yn un dda neu'n un wael. Wedi darllen "Gwerthuso Wikipedia", byddwch yn:

- Deall sut mae erthyglau Wikipedia'n esblygu
- Gallu gwerthuso ansawdd erthygl

Beth ydy Wikipedia?

Nid ffynhonnell gynradd yw Wikipedia, fel cyfweiliad uniongyrchol, na ffynhonnell eilaidd, fel papur academiaidd neu stori newyddion. Gwyddoniadur yw Wikipedia. Mae'n gasgliad o wybodaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd, wedi eu trefnu'n erthyglau sy'n darparu trosolwg cyffredinol. Fel gyda phob gwyddoniadur, dylid defnyddio Wikipedia fel man cychwyn. Fe all ddarparu trosolwg eang o destun a'ch cynorthwyo i ddod o hyd i ffynonellau cynradd ac eilaidd o ansawdd uchel.

Gall Wikipedia eich cynorthwyo i:

- Ennill trosolwg o bwnc
- Lunio rhestr o weithiau sy'n cael eu hargymell, ar destun
- Ddarganfod testunau perthynol

Sut mae erthyglau Wikipedia'n cael eu creu?

Nid yw erthyglau Wikipedia yn cael eu llunio mewn un cynnig. Maent yn tyfu, fesul golygiad, yn aml wrth i sawl defnyddiwr gwahanol weithio gyda'i gilydd. Gall un cyfrannwr ddechrau erthygl, un arall ychwanegu mwy o destun, ac un arall eto fynd ati i'w haildrefnu i'w gwneud yn haws ei darllen. Nid yw un person yn "berchen" ar erthygl, ond mae gan lawer ddiddordeb mawr mewn erthyglau a aeth â chryn dipyn o'u hamser. Mae'n bosibl gweld sut y bu i bob erthygl esblygu drwy glicio ar y ddolen "Gweld yr hanes" ar frig y ddalen. Mae pob fersiwn flaenorol o'r erthygl i'w gweld yno.

 Comin Delweddau, sain ayb	 MediaWiki Datblygu meddalwedd rhydd	 Meta-Wiki Wikimedia (Wicifryngau)
 Wicilyfrau Gwerslyfrau a llawlyfrau	 Wicidata Bas-data ar gyfer yr holl brosiectau (Saesneg)	 Wicinywddion Newyddion (Saesneg)
 Wiciddyfynnu Dyfyniadur Cymraeg	 Wicidestun Testun Cymraeg, gwreiddiol	 Wicifywyd Rhywogaethau (Saesneg)
 Wiciysgol Deunydd a datblygiadau addysgol (Saesneg)	 Wicidaith Teithlyfr (fersiwn Cymraeg ar y gwell)	 Wiciadur Geiriadur a thesawrws Cymraeg

Mae pob rhes ar y dudalen ‘Gweld yr hanes’ yn cynrychioli un fersiwn o’r erthygl. Cliciwch ar y dyddiad i weld y fersiwn honno. Fe welwch chi fod pob fersiwn wedi ei chysylltu ag enw’r defnyddiwr a wnaeth y golygiad hwnnw.

Darllen	Golygu	Gweld yr hanes	Chwilio
---------	--------	----------------	---------

• (cyf cynt) ●	15:06, 1 Chwefror 2013	BOT-Twm Crys (Sgws cyfraniadau) .. (11,429 beit) (+35) ..		
		<i>(ychwanegu dolen i Wiciadur using AWB) (dadwneud)</i>		
• (cyf cynt) ●	07:56, 28 Hydref 2012	Adam (Sgws cyfraniadau) B .. (11,394 beit) (-4) ..		(→Nodweddion asid: dol) (dadwneud)
• (cyf cynt) ●	01:08, 13 Medi 2012	Glanhaur (Sgws cyfraniadau) B .. (11,398 beit) (+3) ..		(→Asidau gwan) (dadwneud)
• (cyf cynt) ●	01:05, 13 Medi 2012	Glanhaur (Sgws cyfraniadau) .. (11,395 beit) (-129) ..		(→Cryfder asidau) (dadwneud)
			Cymharwch gyda CYFoes neu CYNT	
			Amser a dyddiad y golygiad	
			Enw Defnyddiwr neu gyfeiriad IP y golygydd	
				Y crynodeb a adawyd gan y golygydd

Hefyd, mae’n bosib cymharu dwy fersiwn o’r erthygl drwy ddewis y botymau radio sy’n cyd-fynd â’r fersiynau rydych am eu cymharu, a chlicio “Cymharer y fersiynau dewisedig”. Fe welwch chi ddwy golofn: yr un ar y chwith yw’r fersiwn cynharaf a’r un ar y dde yw’r un ddiweddaraf. Mae unrhyw wahaniaethau i’w gweld mewn coch. Gallwch ddefnyddio’r nodwedd hon i weld beth ddigwyddodd; pa wybodaeth sydd wedi ei hychwanegu neu ei dileu yn y cyfnod rhwng y ddau fersiwn.

<p>Mae "acid" yn aml yn cael ei gynrychioli gyda'r fformiwla "HA" [H⁺A⁻], ac fel arfer yn cael ei ddiffinio fel [[cyfansoddyn]] [[cemegeg]]ol, sydd, o'i hydoddi mewn [[dŵr]] yn rhoi [[hylif]] gyda dwysedd nifer o [[ïon ionau]] [[hydrogen]] uwch na dŵr pur h.y. gyda [[pH]] o lai na 7.0. [[Johannes Nicolaus Brønsted]] a [[Martin Lowry]] ffurfiodd y diffiniad hwn. Dyma'r diffiniad sy'n cael ei dderbyn fynychaf drwy'r byd ond mae llawer iawn o ddiffiniadau eraill ar gael. Mae'r ïon hydrogen, mewn gwirionedd, yn cael ei roi i gyfansoddyn arall (a elwir yn gyfansoddyn bas).</p>	+	<p>Mae "acid" yn aml yn cael ei gynrychioli gyda'r fformiwla "HA" [H⁺A⁻], ac fel arfer yn cael ei ddiffinio fel [[cyfansoddyn]] [[cemegeg]]ol sydd, o'i hydoddi mewn [[dŵr]] yn rhoi [[hylif]] gydag actifedd [[ïon ionau]] [[hydrogen]] uwch na dŵr pur h.y. gyda [[pH]] o lai na 7.0. Mae'r ïon hydrogen, mewn gwirionedd, yn cael ei roi i gyfansoddion arall (a elwir yn gyfansoddyn bas). [[Johannes Nicolaus Brønsted]] a [[Martin Lowry]] a ffurfiodd y diffiniad o acid fel sylwedd sy'n 'cyfrannu' [[proton]]au (H⁺). Dyma'r diffiniad sy'n cael ei dderbyn fynychaf drwy'r byd ond mae llawer iawn o ddiffiniadau eraill ar gael</p>
---	---	--

Mae'r fersiwn cynt yn cael ei gyflwyno ar y chwith. Mae unrhyw newidiadau wedi eu hamlygu mewn gwyrddlas ar y dde (y fersiwn diweddaraf).

Ffordd arall o weld esblygiad erthygl yw edrych ar ei "thudalen sgwrs". Ar frig pob erthygl ceir dolen "Sgwrs". Cliciwch arni i weld faint o fyfyrion a fu ar greu'r erthygl. Efallai bod y pryder sydd gennych ynglŷn â'r erthygl wedi ei drafod eisoes.

Os oes gennych bryderon ynglŷn ag ansawdd erthygl ond nad oes modd ichi ei gwella eich hunan, ysgrifennwch eich cwestiynau ar y dudalen sgwrs, yna ewch yn ôl i'r dudalen i weld os yw un o olygyddion yr erthygl wedi ymateb.



Beth yw elfennau erthygl o ansawdd dda?

Yn gyffredinol, mae i erthyglau o ansawdd dda bum elfen: adran arweiniol (neu'r cyflwyniad) sy'n rhoi trosolwg hawdd ei ddeall, strwythur eglur, sylw cytbwys, cynnwys niwtral, a ffynonellau dibynadwy.

- ✓ **Mae'r "adran arweiniol"** (neu'r cyflwyniad) yn ddealladwy ac yn crynhoi prif bwyntiau'r erthygl. Er enghraifft, dylai'r adran arweiniol mewn bywgraffiad grybwyll pam bod y person yn enwog a ble roedd hi'n byw, ond does dim angen rhoi sylw i fanylion ei phlentyndod a allai fod yn fwy addas ar gyfer isadran ddilynol.
- ✓ **Mae'r "strwythur" yn eglur.** Mae yma sawl pennawd ac is-bennawd, delweddau a diagramau mewn manau priodol, ac atodiadau a throednodiadau ar y diwedd. Yn achos y rhan fwyaf o erthyglau, mae'r cynnwys yn nhrefn amser neu wedi ei drefnu yn ôl themâu.
- ✓ **Mae gwahanol agweddau'r pwnc yn "gytbwys".** Does dim un agwedd yn cael mwy o sylw nag un arall, ac mae sylw yn cael ei roi i bob agwedd. Mae safbwyntiau pwysicach yn cael mwy o le yn yr erthygl. Er enghraifft, nid yw erthygl am frid o gathod sy'n cynnwys disgrifiad hir am natur y brid, ond ychydig neu ddim gwybodaeth am ei nodweddion ffisegol, yn un cytbwys.
- ✓ **Mae'r ymdriniaeth yn niwtral, yn ddi-duedd.** Rhaid i erthyglau gael eu hysgrifennu heb ragfarn; pan fo anghytuno rhwng ysgolheigion y testun, dylid dangos y gwahanol safbwyntiau gyda chydbywysedd priodol. Dylid cynnwys y positif a'r negyddol, mewn cyfrannedd â'u hymdriniaeth mewn ffynonellau dibynadwy. Mae erthyglau da hefyd yn defnyddio iaith niwtral ac yn pwysleisio ffeithiau.
- ✓ **Mae cyfeiriadau at "ffynonellau dibynadwy" yn bwysig.** Mae gan erthyglau da ddigonedd o droednodiadau ar waelod y dudalen. Os welwch chi ddolenni niferus i gyhoeddiadau awdurdodol, mae hynny'n arwydd da eich bod yn darllen erthygl safonol. Dylai erthygl am y lleuad gynnwys dolenni i wefan NASA, ond nid i flog seryddwr amatur.

Os oes seren aur neu efydd (neu fathodyn) i'w weld yng nghornel dde uchaf yr erthygl, neu gylch gwyrdd gydag arwydd "+", mae hynny'n golygu ei bod wedi mynd drwy broses enwebu ac adolygu gan gymheiriaid ac wedi ei dethol fel un o erthyglau gorau Wikipedia.



Beth yw elfennau erthygl o ansawdd isel?

Os oes gan erthygl fwy na dau o'r arwyddion yma, yna dylech chi chwilio am ffynonellau gwell. (Yna dychwelyd a gwella'r erthygl Wikipedia gyda'r ffynonellau hynny!)

- X Mae “**banner rhybuddio**” ar frig yr erthygl.** Dim ond gwybodaeth neu geisiadau yw'r rhan fwyaf o arwyddion rhybuddio, er enghraifft gofyn ichi helpu i ehangu erthygl os yw hi'n un fer iawn. Ond hefyd gall arwyddion rhybuddio gynrychioli anghydfod heb ei ddatrys ynglŷn â niwtraliaeth erthygl, safon ei hiaith neu ansawdd ei ffynonellau.
- X Mae sawl “**problem iaith**” yn adran arweiniol yr erthygl.** Mae problemau yn yr adran arweiniol fel arfer yn arwydd o broblemau gyda'r erthygl gyfan. Gall adran arweiniol fer fod yn arwydd bod erthygl wedi tyfu fesul darn, heb fawr o sylw i'r gwaith o'i phen i'w chynffon.
- X Mae'r iaith yn cynnwys “**barn a datganiadau am werth**” di-ffynhonnell, sydd ddim yn niwtral a dylid eu dileu.** Er enghraifft, yn lle dweud: “Hi oedd y canwr gorau”, dylai'r testun ddarllen: “Fe aeth 14 o'i chaneuon i rif un, mwy nag unrhyw ganwr arall”.
- X Mae'r erthygl yn cyfeirio at “**rai**”, “**llawer**”, neu “**grwpiau eraill o bobl ddiennw**”.** Mae'r datganiadau yma'n rhy gyffredinol a dylid cynnwys ffeithiau yn eu lle.
- X Mae'n ymddangos bod agweddau o'r testun “**ar goll**” o'r tabl cynnwys ac o'r erthygl.** Er enghraifft, os yw bywgraffiad yn neidio dros gyfnod o amser ym mywyd y person dan sylw, mae'n awgrymu bod ffeithiau pwysig hefyd ar goll.
- X “**Mae rhai adrannau'n ymddangos yn rhy hir**” wrth ystyried eu pwysigrwydd.** Er enghraifft mae adran hir o “**feirniadaeth**” mewn erthygl am gwmni sydd fel arall yn un fer yn awgrymu bod yr erthygl yn rhagfarnllyd yn erbyn y cwmni.
- X “**Ychydig iawn o gyfeiriadau**” sydd yn yr erthygl, neu mae rhannau sylweddol o'r erthygl heb droednodiadau.** Os nad yw erthygl wedi ei seilio ar ddigon o ffynonellau, mae'n bosib iddi gael ei hysgrifennu heb wybodaeth gyflawn am y testun.
- X Mae'r dudalen sgwrs yn llawn “**deialog gelyniaethus**”.** Os nad oes gan olygyddion yr erthygl lawer yn gyffredin rhyngddynt, yna mae'n bosib bod yr erthygl yn gwyro gormod i un cyfeiriad, neu fod gormod o fanylion ynnddi am un o agweddau dadleuol ei thestun heb sylw digonol i agweddau llai dadleuol.

Rhowch gynnig arni!

Beth sydd ym mhob erthygl dda? Dewiswch yr atebion cywir:

- Penawdau a throednodiadau
- Arwyddion rhybuddio
- Cynnwys rhagfarnllyd
- Cynnwys cytbwys

Os oes gennych chi'r amser neu'r wybodaeth, beth am gywiro'r broblem eich hun drwy glicio Golygu ar frig yr erthygl, newid y testun, a chlicio "Cadw'r dudalen".

Nawr eich bod wedi darllen y llyfryn yma, rydych yn:

- Deall sut mae erthyglau Wicipedia yn esblygu
- Gallu gwerthuso ansawdd erthygl

Beth sydd ym mhob erthygl dda?

- Penawdau a throednodiadau
- Cynnwys cytbwys

Lluniwyd y cynnwys addysgol yma gan brosiect Wikimedia Bookshelf. I lawrlwytho copi electronig o Gwerthuso Ansawdd Erthygl Wicipedia a deunyddiau Bookshelf eraill, ewch i:

<http://bookshelf.wikimedia.org>

Yn y lleoliad yma hefyd mae ffeiliau ffynhonnell sy'n caniatáu ichi gyfieithu, addasu, ac aildefnyddio deunyddiau Bookshelf.

Beth am gywirdeb Wikipedia?

Fel darllenwr, rydych yn rhoi gwerth mawr ar ddibynadwyedd. I lawer, mae defnyddio Wikipedia wedi dod fwy neu lai yn norm, ond sut mae sicrhau bod yr wybodaeth a gewch yn wybodaeth o ansawdd dda ac felly'n ddibynadw?

Mae "Gwerthuso ansawdd erthygl Wikipedia" yn gyfeirlyfr i helpu darllenwyr i weld nodweddion erthyglau o ansawdd da a gwael.

Wikimedia UK
4th Floor, Development House
56-64 Leonard Street
London
EC2A 4LT

Mae Wikimedia Foundation yn fudiad elusennol ddim er elw, ac sy'n cynnal Wikipedia a phrosiectau eraill ar drwydded rydd, agored.

[[:w:en:Category:Bookshelf Project](#)]



Mae pob delwedd neu lun o Gomin Wicimedia dan drwydded CC BY-SA neu drwydded o fewn y parth cyhoeddus, oni ddywedir yn wahanol. Mae'r cynnwys o fewn y daflen hon ar gael ar y drwydded yma, sef Creative Commons Attribution-ShareAlike License v.3.0 (<http://en.wikipedia.org/wiki/Wikipedia:CC-BY-SA>) neu unrhyw fersiwn diweddarach o'r drwydded.



Nid yw nodau masnach a logos y Sefydliad Wicimedia (Wikimedia Foundation) neu unrhyw sefydliad arall o dan drwydded Comin Creu. Mae nodau masnach Sefydliad Wicimedia, Wikipedia a Wicipedia, Comin, MediaWiki, Wiciadur a Wiktionary, Wikibooks, Wikidata, Wicidestun a Wikisource, Wikinews, Wikiquote, Wikiversity, Wikivoyage, Wikispecies, a Meta-Wiki wedi eu cofrestru neu ar fin cael eu cofrestru gan Sefydliad Wicimedia

Amragor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein tudalen Polisi Nodau Masnach, http://wikimediafoundation.org/wiki/Trademark_Policy.

Am unrhyw wybodaeth arall am ein trwyddedau neu Nodau Masnach, ehostiwch ni ar legal@wikimedia.org



10% post-consumer recycled fiber,
elemental chlorine-free process,
produced using renewable power